

Dyddiad cyhoeddi: 10 Awst 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

“Diolch am yr ymateb sy'n esbonio'r hyn rydych chi'n ei wneud. Fodd bynnag, dydych chi heb ddarparu'r wybodaeth y gofynnais amdani. Mae gofyn i chi gadarnhau bod gennych chi'r wybodaeth hon ac, os byddwch chi'n penderfynu na fyddwch chi'n ei darparu i mi, mae'n rhaid i chi nodi pam. Mae'r ymateb a anfonwyd gennych chi'n ddethol iawn ac, yn wir, mae rhannau allweddol ar goll (er enghraifft, mae'r tabl sydd wedi'i gymryd o'r asesiad risg llwybrau, nad yw'n ymwneud â Covid, yn anghyflawn).

Nid yw'r cynllun “galw am dacsï” yn cael ei hysbysebu'n dda (er enghraifft, nid yw'n ymddangos ar eich system archebu) ac nid yw'n amlwg beth yn union sy'n cael ei gynnig (tacsï am ddim o orsaf Llanbedr i Harlech i gwrdd â'r trêen efallai??) Mae hefyd yn ymddangos bod y penderfyniad i gau'r orsaf wedi cael ei wneud fel opsiwn hawdd heb roi ystyriaeth ddigonol i ddewisiadau eraill (neu efallai y bydd yr asesiad risg lechyd a Diogelwch yn dangos fy mod yn anghywir yma?) a heb asesu'r risg i'r cyhoedd o gau'r orsaf. Fel rydych chi'n dweud, mae 12000 o deithwyr yn defnyddio gorsaf Llanbedr mewn blwyddyn arferol.

Efallai y gallech chi hefyd egluro rôl y gard ar y trêen o Fachynlleth i Bwllheli ar hyn o bryd a'r refeniw rydych chi'n rhagweld eich bod chi'n ei gollu am nad yw tocynnau'n cael eu harchwilio?”

Ar ôl derbyn eich cais am ragor o wybodaeth, gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r adran briodol ac dyma'r atebion a ddychwelwyd ganddynt:

- 1. A fydddech cystal â chadarnhau y llenwyd dogfen neu ffurflen asesu risg benodol mewn perthynas â chau Gorsaf Llanbedr dros dro? Os felly, a fydddech cystal â'i darparu gan fod yn rhaid ei datgelu. Os nad ydych yn ei darparu, eglurwch pam.**

Nid oes asesiad risg penodol ar gyfer cau Gorsaf Llanbedr dros dro. Yn hytrach, cwblhawyd un asesiad risg ar gyfer y gorsaf oedd a nodwyd ar gyfer eu cau dros dro fesul llwybr. Mae Gorsaf Llanbedr yn cael ei hystyried o dan yr asesiad risg ar gyfer y llwybr rhwng Cyffordd Dyfi a Phwllheli. Cafodd rhan o'r asesiad risg hwnnw ei gynnwys yn ein hymateb cychwynnol, a chafodd ei docio i ddangos y ddau gofnod a oedd yn ymwneud â gorsaf Llanbedr yn unig. Er ei fod yn fyr, y bwriad yn syml oedd cefnogi'r wybodaeth a ddarparwyd gan amlinellu'r rheswm dros gau dros dro (h.y. – y platfform byr).

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd Gorsaf Llanbedr yn un o'r rhai a glustnodwyd ar gyfer ei chau dros dro yn 2020 gan nad oedd yn bosibl bodloni cyfreithiau cadw pellter cymdeithasol oherwydd cyfyngiadau ymarferol y platfform byr. Ers dechrau pandemig y Coronafeirws, nid yw goruchwylwyr wedi cael cerdded drwy'r trêen i roi gwasanaeth i gwsmeriaid ac ar gyfer dyletswyddau adwerthu os nad oes modd cadw pellter cymdeithasol. O'r herwydd, mae'r goruchwylwyr wedi'u lleoli yn y cabanau

ar flaen ac yng nghefn y trêen. Ar blatfform byr, byddai angen i oruchwylwr gerdded ar hyd y trêen ac agor drws y cerbyd yn y man canol er mwyn cael pwynt mynediad ar y naill ben i'r platfform a'r llall, gan mai dim ond hanner blaen y trêen fydd yn ffitio ar y platfform. Drwy gerdded ar hyd y trêen fel hyn, ni fyddai'n goruchwylwr yn gallu cydymffurfio â'r gyfraith cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr sydd wedi'i nodi yng Nghyfyngiad Coronafeirws Diogelu Iechyd, Rhif 5. (Gweler <https://senedd.wales/media/r1wlaaru/sub-ld14327-c.pdf>), sy'n golygu nad oes modd galw yn y gorsafoedd hyn o ganlyniad i hynny. Mae'r ffaith y byddai ein goruchwylwr yn torri'r gyfraith hon drwy stopio yn y gorsafoedd hyn yn ddigon i gyfiawnhau tynnu'r orsaf hon oddi ar yr amserlen nes bydd y gyfraith wedi'i llacio.

I gefnogi hyn, mae'r asesiad risg ar gyfer goruchwylwr ar hyd Rheilffordd Arfordir y Cambrian wedi'i atodi. Ni chafodd hyn ei ddarparu yn y lle cyntaf o gofio eich bod wedi gwneud cais am asesiad risg sy'n benodol i Orsaf Llanbedr, ac fel yr esboniwyd, nid yw'n bodoli. Mae gwybodaeth bersonol wedi'i golygu o dan Adran 40 (2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae rhagor o wybodaeth am yr eithriad hwn ar gael yma: [a40 Gwybodaeth Bersonol \(adran 40 a rheoliad 13\)/ fersiwn 2.3 \(ico.org.uk\)](#)

Mae'n werth nodi ein bod yn awr yn gweithio gydag undebau llafur i ail-gyflwyno'r gorsafoedd hyn, a'r dyddiad disgwylidig yw 7 Awst. Bydd hyn, wrth gwrs, yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen i lacio cyfyngiadau'r Coronafeirws a'r deddfau cadw pellter cymdeithasol cysylltiedig, a gallu ein hadran cynllunio trenau i gynnwys y gorsafoedd hyn yn yr amserlen.

2. A oes modd darparu unrhyw wybodaeth bellach am y gwasanaeth galw am dacsï?

Cafodd y gwasanaeth galw am dacsï ei hysbysebu mewn gorsafoedd pan gafodd ei gyflwyno am y tro cyntaf ganol 2020. Mae'r ffaith nad oes llawer o le i bosteri ar gael mewn rhai gorsafoedd yn golygu y gallai blaenoriaeth fod wedi'i rhoi i arddangos gwybodaeth arall yr un mor bwysig am y Coronafeirws i gwsmeriaid ar draws y rhwydwaith. Mae'r gwasanaeth yn dal i gael ei hysbysebu ar ein gwefan yn y cyfeiriad canlynol:

<https://trctrenau.cymru/amserlenni/mai-2021-newidiadau-ir-amserlen>

3. Beth yw rôl y gard ar y trêen o Fachynlleth i Bwllheli ar hyn o bryd?

Mae rôl ein goruchwylwr (gardiau) yn gyson ar ein gwasanaethau ledled Cymru, gan gynnwys y gwasanaeth rhwng Machynlleth a Phwllheli. Mae ein goruchwylwr yn gyfrifol am ddiogelwch ein teithwyr ar yr un pryd â darparu gwasanaeth i gwsmeriaid a'u hannog i lynu wrth y gofynion cadw pellter cymdeithasol a mesurau diogelwch eraill y Coronafeirws. Er nad yw ein goruchwylwr ar hyn o bryd yn cerdded ar hyd y trêen i agor drysau cerbydau yn yr adrannau canol neu i wirio tocynnau, mae hyn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i sicrhau diogelwch ein staff wrth i ni weithio'n galed i fynd i'r afael â heriau'r pandemig parhaus. Ar hyn o bryd, mae ein goruchwylwr yn agor drysau cerbydau ar flaen ac yng nghefn y trêen; ac maen nhw'n parhau i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid o bellter diogel ar y platfform. Mae goruchwylwr hefyd yn parhau i wneud cyhoeddiadau gwybodaeth a diogelwch gan ddefnyddio'r system PA ar y trêen.

4. Faint o refeniw ydych chi'n rhagweld a fydd yn cael ei gollu am nad yw tocynnau'n cael eu gwirio?

Gofynnwn yn barchus am eglurhad gennych ynglŷn â'r cwestiwn hwn. Rhowch wybod i ni a ydych yn cyfeirio at refeniw a gollwyd ar draws ein rhwydwaith cyfan, ar hyd y llwybr penodol hwn, neu yng nghyswllt gorsaf Llanbedr yn benodol. Mae teithio heb docyn yn parhau i fod yn sefyllfa sy'n datblygu o gofio'r amwysedd ynghylch lle mae teithwyr sy'n teithio heb docyn yn ymuno neu'n ymadael â'n gwasanaethau, a nifer y gorsafoedd heb staff ar draws ein rhwydwaith. Amcangyfrifir ar hyn o bryd bod 25% o'r holl deithiau a wneir ar ein gwasanaethau yn rhai heb docyn ar hyn o bryd.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".